**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 2il Medi, 2024 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Steve (SW)**(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Dwynwen (DP), Dewi (DH), Gethin (GR), Elen (EH), Eurig (EJ), Dilys (DAP).

Ymddiheuriadau: Richard, Raymond, Sioned, Keith

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Fai, 2024 fel rhai cywir. | |
| **2.** | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>Adroddodd<br><br>• bod gan y Clwb 262 o aelodau a 53 o gyfeillion. Nid yw'r cyfeillion yn talu'r tâl aelodaeth llawn ond mae oddeutu £1,000 o incwm yn cael ei dderbyn ganddynt<br><br>• bod swm o oddeutu £7,000 gan y Clwb wrth gefn yn cynnwys £360 yn weddill o Gronfa Goffa Gareth Pierce . Disgwylir y bydd yr arian yma wedi cael ei wario erbyn yr Hydref mewn cydweithrediad â'r Urdd.<br><br>• ei bod yn disgwyl gwneud nifer o daliadau pellach o'r cyfrif ond yn amcangyfrif y bydd gan y Clwb oddeutu £1,500 yn rhagor yn y coffrau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol nag oedd yno ar y dechrau.<br><br>• Gyda incwm y Clwb wedi mynd dros y trothwy o ££25,000, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth rheoli elusennau, bydd angen archwiliad annibynnol o'r cyfrifon a ffurflen bwrpasol gael ei chwblhau a'i harwyddo. Ni chafodd gyfle eto i holi os byddai archwilydd presennol y Clwb (George Jones) yn fodlon parhau i wneud y swydd efo'r gofynion ychwanegol hyn ai peidio. Holodd a oedd unrhyw aelod o'r pwyllgor yn ymwybodol fod unrhyw aelod o'r Clwb â chefndir/profiad yn y maes ariannol/cyllid.<br><br>Cytunwyd<br>i. nodi'r wybodaeth<br>ii. gofyn i SW drosglwyddo unrhyw anfoneb a dderbynnir gan yr Urdd ar gyfer gwariant o Gronfa Goffa Gareth i Dilys er mwyn gallu defnyddio arian y Gronfa<br>iii. gofyn i aelodau'r Pwyllgor gysylltu â DAP os gallent feddwl am unrhyw aelod sydd yn ymwneud â'r maes ariannol. | |
| **3.** | **CYFARFOD BLYNYDDOL 2024**<br><br>Adroddwyd gan IPR fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal y Cyfarfod Blynyddol yng Ngwesty'r Oakley Arms yn Maentwrog ar nos Sadwrn 16eg Tachwedd 2024 ac y bydd manylion a bwydlen yn cael eu hanfon i'r aelodau yn ddiweddarach yn ystod y mis.<br><br>Ymddengys na fydd y syniad o gael sgwrs am ddyddiau cynnar y Clwb yn y Cyfarfod Blynyddol yn dwyn ffrwyth gan y methwyd sicrhau aelodau i'w gyflwyno ond gobeithir arddangos rhai o'r dogfennau a gasglwyd fel rhan o'r broses o hel archif y Clwb.<br><br>Gan y bydd tymor SW fel Cadeirydd yn dod i ben yn y Cyfarfod ac EH yn cymryd drosodd mae'r broses o chwilio am Is-gadeirydd newydd yn mynd rhagddo. | |

<table>
<tr><td></td><td>Cytunwyd nodi’r wybodaeth</td><td></td></tr>
<tr><td>4.</td><td>
<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>

Adroddodd RR fel a ganlyn:

<ul>
<li>Yn ystod y cyfnod 13 Mai i 2 Medi cynhaliwyd 18 taith a bu’n rhaid gohirio dwy arall oherwydd tywydd anffafriol. Mynegodd ei werthfawrogiad o bawb oedd wedi gwirfoddoli i arwain teithiau. Roedd yn gwneud ei orau i sicrhau cydbwysedd rhwng teithiau heriol dros ben a rhai cymedrol er mwyn apelio at yr ystod ehangaf posibl o aelodau.</li>
<li>Roedd yn hynod o ddiolchgar i Dwynwen am arwain taith y 15 copa a’r daith heriol arall o Drawsfynydd i’r Bermo ac i Keith am drefnu taith haf i’r Alban unwaith eto.</li>
<li>Mae’r rhaglen weithgareddau ar gyfer y cyfnod Medi-Rhagfyr 2024 yn barod a IAG wedi ei chynnwys ar wefan y Clwb. Trefnwyd taith ar gyfer pob dydd Sadwrn. Ar ddiwrnod y Cyfarfod Blynyddol trefnwyd dwy daith gyda John Parry a Manon Davies yn eu harwain. Cynhelir taith flasu hefyd ar 28 Medi dan arweiniad Steve a bydd yn annog aelodau i ymuno â’r daith er mwyn helpu a chroesawu darpar-aelodau newydd.</li>
<li>Mae trefniadau ar y gweill i gynnal Penwythnos Mynydda yng Ngwersyll Glan-llyn ar 4-6 Hydref 2024, mewn cydweithrediad â’r Urdd a chyda nawdd teulu’r diweddar Gareth Pierce. Bydd SW yn gofyn i’r Urdd anfon anfoneb i DAP.</li>
<li>Adroddodd DH y bydd criw y de yn mynd am ginio Nadolig ar ôl eu taith mis Rhagfyr a bod gwahoddiad i aelodau o’r gogledd ymuno â hwy os dymunant. Nododd y byddai’n hoffi gweld mwy o gyd-gerdded rhwng aelodau’r gogledd a de ar deithiau’r Clwb. Hefyd roedd yn ystyried y posibilrwydd o gynnig sesiynau dringo dan do i aelodau yng nghanolfan dringo Boulders yng Nghaerdydd a holodd os oedd unrhyw weithgaredd cyffelyb yn digwydd yn y gogledd.</li>
<li>Cododd DP gwestiwn ynglŷn ag addasrwydd caniatáu darpar-aelod i ddod ar daith flasu wedi ei graddio yn ddu. Teimlai gyda natur heriol ac anodd y teithiau hyn y byddai’n well eu cyfyngu i aelodau llawn yn unig.</li>
</ul>

Cytunwyd

i. diolch i RR am ei holl waith yn paratoi y rhaglen weithgareddau ac i bawb oedd wedi gwirfoddoli i arwain teithiau’r Clwb

ii. cefnogi ymdrechion DH i geisio trefnu sesiynau dringo dan do yn y de a nodi nad oes trefniant cyffelyb yn y gogledd ar hyn o bryd.

iii. cytuno â sylwadau DP a gofyn i SW drafod efo RR addasu’r canllawiau i nodi er bod croeso i ddarpar-aelodau ymuno â theithiau’r Clwb mai ar gyfer aelodau llawn yn unig mae’r teithiau wedi eu graddio yn ddu
</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 5 | **<u>ARCHIF Y CLWB</u>**<br><br>Adroddodd SW bod y gwaith o hel dogfennau ar gyfer creu archif y Clwb bron a’i gwblhau ac y gobeithir y bydd ar gael i’w arddangos yn y Cyfarfod Blynyddol. Y bwriad wedyn yw cysylltu a’r Llyfrgell Genedlaethol i weld os oes modd ei drosglwyddo iddynt.<br><br>Cytunwyd nodi’r wybodaeth a diolch i SW am ei holl waith. | |
| 6. | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2024 a 2025</u>**<br><br>A. Eisteddfod 2024<br><br>Diolchodd SW i DH am drefnu taith y Clwb yn ystod yr Eisteddfod gyda dros 20 o aelodau o’r de a’r gogledd wedi mynychu, i Gerallt am draddodi’r ddarlith ac i DP am drefnu’r posteri ar ei chyfer.<br><br>B. Eisteddfod 2025<br><br>C ytunwyd<br>i. bydd SW yn cysylltu ag EH ynglŷn â’r drefn o archebu lle ym Mhabell y Cymdeithasau ar gyfer y ddarlith<br>ii. gofyn i bawb feddwl am ddarlithydd posibl, yn ddelfrydol rhywun â chysylltiad â’r ardal. Un awgrym oedd holi Paula Roberts a fyddai, fel cyn ddarlithydd yn y maes Amgylcheddol, yn fodlon siarad am agweddau ar fynyddoedd a newid hinsawdd ac y byddai EH yn ei holi. | |
| 7. | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Adroddodd SW ar sefyllfa ariannol fregus y corff a oedd wedi arwain at nifer o staff yn cael eu diswyddo. Disgwylid hefyd y byddent, oherwydd eu problemau ariannol dyrys a chostau yswiriant yn codi yn sylweddol , yn gofyn am fwy o gymorth ariannol gan glybiau drwy gynyddu eu tanysgrifiadau.<br><br>Nododd DAP gan fod gan y Clwb swm o arian wrth gefn y credai y gellid ysgwyddo unrhyw gynnydd yn y tanysgrifiad y disgwylir i aelodau Clybiau ei dalu yn 2025 oni bai fod y cynnydd yn un eithriadol o uchel. Fodd bynnag, yn y tymor hir byddai’n rhaid i’r Clwb edrych ar ei dâl aelodaeth i sicrhau y gellid talu y tanysgrifiadau. Roedd y ffaith fod y CMP mor hwyr yn y flwyddyn yn penderfynu ar lefel y tanysgrifiadau yn ei gwneud yn anodd i gynllunio cyllidebau.<br><br>Cytunwyd nodi’r wybodaeth a gofyn i SW drosglwyddo sylwadau’r Trysorydd i’r CMP. | |
| 8. | **<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>**<br><br>Adroddwyd ar y canlynol<br><br>• bod nifer o aelodau wedi mynychu cyrsiau cymorth cyntaf yn y gogledd a’r de<br>• bydd Dwynwen a Manon yn gwneud eu hasesiad ar gyfer y cymhwyster Arweinydd Mynydd ddiwedd mis Medi<br>• bod y Clwb wedi talu’r tâl aelodaeth blynyddol o £150 i’r Bartneriaeth sy’n golygu bod cymorth o hyd at £500 ar gael ar gyfer hyfforddiant mynydda i aelodau<br><br>Cytunwyd<br>i. nodi’r wybodaeth a gofyn i DP holi Sian Williams am y sefyllfa gyda’r cymorth o hyd at £500 ar gyfer hyfforddiant mynydda i aelodau | |

| | | |
|---|---|---|
| | ii. dymuno'n dda i Dwynwen a Manon yn eu hasesiad Arweinydd Mynydd. | |
| **9.** | **<u>TEITHIAU MYNYDDA 2025 YN YR ALBAN</u>**<br><br>Adroddwyd fod KR wedi gwneud trefniadau i gynnal wythnos o weithgareddau gaeaf y Clwb yn yr Alban unwaith eto yn Crianlarich yn nechrau mis Mawrth ac hefyd i gynnal taith yr haf i'r Alban yn y Cairngorms. Ar ôl cael cadarnhad gan y gwahanol westai/hosteli bydd yn anfon manylion allan.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **10.** | **<u>AELODAETH Y CLWB</u>**<br><br>Cytunwyd os y ceir newydd trist am farwolaeth aelod cyfredol o'r Clwb y dylid gyrru cerdyn o gydymdeimlad i'r teulu. | |
| **11.** | **<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 13eg o Ionawr, 2025, drwy gyfrwng Zoom. | |